

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Anja Gosha, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 16 Gorffennaf 2024

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-773-8

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Anja Gosha, 54a Bute Street, Caerdydd, CF10 5AF ar 16 Gorffennaf 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Anja Gosha yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol. Roedd yr ystafell drin yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Roedd cleifion yn ymgymryd ag ymgynghoriad llawn ac roeddent yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gael pe byddai cleifion yn gofyn am driniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy holiaduron ar-lein ac adolygiadau ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau ar waith i gasglu adborth ar lafar, nac i roi gwybod i gleifion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth.

Nid oedd y cyfleusterau'n hygyrch iawn i gleifion â gofynion symudedd, ond byddai'r rheolwr cofrestredig yn rhoi cymorth i gleifion lle y bo'n bosibl.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cadw cofnodion gofal iechyd cynhwysfawr ar gyfer pob claf
- Roedd angen sicrwydd na fydd y clinig yn darparu triniaethau laser pellach i gleifion dan 18 oed.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion
- Rhoi cofrestr o driniaeth sy'n benodol i'r peiriant laser ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Cawsom sicrwydd fod amgylchedd y lleoliad yn gynhwysol
- Roedd yr holiaduron cleifion yn cael eu hanfon yn ddigidol ar ôl pob triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac roedd contract priodol ar waith i gael gwared ar wastraff clinigol.

Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd y systemau diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ac nid oedd unrhyw rwystrau yno.

Roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar ac roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar waith a oedd mewn cyflwr da. Roedd gan y clinig Reolau Lleol cyfredol ac roedd contract Cynghorydd Diogelu Laserau cyfredol ar waith.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Paratoi a rhoi polisi iechyd a diogelwch ar waith yn unol â'r rheoliadau
- Roedd angen i'r staff ymgymryd â hyfforddiant gloywi cymorth cyntaf ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi gwiriadau peiriant laser dyddiol
- Staff i gwblhau hyfforddiant gloywi ar ddiogelu
- Rhoi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn ymddangos mewn cyflwr da gydag asesiad risg tân ar waith, prawf gwifrau trydanol bob pum mlynedd a Phrofion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ddiweddar ac yn ddilys
- Roedd yr ystafell drin a'r dderbynfa yn ymddangos yn lân ac yn daclus.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae Anja Gosha yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriant laser awdurdodedig. Nid yw'r clinig yn cyflogi unrhyw weithwyr eraill.

Er bod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn brofiadol yn y gwaith ac yn ymgysylltu â chleifion mewn ffordd garedig, ni chawsom sicrwydd llwyr ei fod yn deall pwysigrwydd trefniadau llywodraethu effeithiol. Yn benodol, nid oedd

polisiau allweddol ar waith neu roedd diffyg canllawiau pwysig ynddynt, a nodwyd gennym fod y clinig wedi torri amodau ei gofrestriad. Fodd bynnag, gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn croesawu adborth a'i fod wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Roedd gweithdrefn gwyno yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion hyd yma.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gweithredwr brwdfrydig, cyfeillgar a phrofiadol
- Ymateb yn gadarnhaol i adborth ac awgrymiadau a wnaed yn ystod yr arolygiad

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o bum holiadur wedi'u cwblhau. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a gafwyd yn dda iawn.

Urddas a pharch

Roedd un ystafell drin wedi'i lleoli ar lawr gwaelod y clinig. Roedd grisiau yn arwain i mewn i'r adeilad o'r stryd a oedd yn rhwystr i gleifion â phroblemau symudedd, ond dywedwyd wrthym fod cymorth ar gael lle y bo'n bosibl er mwyn helpu cleifion i gyrraedd y clinig. Gwelsom fod haen ddi-draidd ar y ffenestri yn yr ystafell a bod modd cloi'r drws er mwyn i gleifion newid yn breifat. Roedd dillad isaf papur untro ar gael i'r cleifion eu defnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas.

Roedd yn ofynnol i'r cleifion gael gafael ar eu hebryngwyr eu hunain. Roedd yn bosibl i hebryngwyr fod yn bresennol yn ystod yr ymgynghoriad ond ni oeddent yn cael bod yn yr ystafell drin yn ystod triniaethau.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn dweud bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, ac roeddent yn teimlo bod y staff wedi gwrandao ar eu cwestiynau ac wedi eu hateb.

Cyfathrebu'n effeithiol

Darparodd y rheolwr cofrestredig gopiâu digidol o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Fodd bynnag, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Yn benodol, roedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o'r ffordd y byddai'r clinig yn delio â chwynion ond nid oedd yn esbonio sut y gallai cleifion gysylltu â'r clinig i godi cwyn. Roedd canllawiau clir o gostau'r holl agweddau ar driniaethau, crynodeb o'r adborth gan gleifion a manylion am sut y gellir cael gafael ar adroddiad diweddaraf AGIC hefyd ar goll. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd unrhyw gopiâu papur o'r canllaw i gleifion ar gael yn y clinig pe byddai claf yn gofyn am gopi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion yn y clinig.

Nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y clinig, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu pe bai eu hangen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw glaf wedi gofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd yma. Dywedwyd wrthym y byddai angen i gleifion yr oedd angen triniaethau drwy gyfrwng iaith arall arnynt ddod â'u hebryngwr eu hunain i ddarparu cyfieithiad. Gwnaethom drafod sut y gallai hyn achosi i'r clinig fod yn agored i niwed pe byddai'r cyfieithydd sydd heb gymhwyso yn camddehongli'r wybodaeth a rennir.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried y ffordd orau y gallai ddiwallu anghenion unigol cleifion a all fod eisiau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill.

Gellid ond trefnu apwyntiadau am ymgynghoriadau ar-lein drwy wefan y clinig yn unig. Dywedwyd wrthym nad oedd yn bosibl trefnu apwyntiadau dros y ffôn yn y clinig.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd cofrestr o'r fath ar waith am fod y wybodaeth yn cael ei chofnodi yng nghofnodion unigol cleifion.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol ar gael a oedd yn cofnodi eu hanes meddygol blaenorol, cytundeb prawf croen a manylion y driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion ar gyfer nifer y dosau a roddwyd yn ystod pob triniaeth gyda'r peiriant laser.

Gwelsom fod ffurflen ymgynghori gychwynnol wedi'i chwblhau a bod pob un o'r cleifion wedi llofnodi'r ffurflen ganiatâd. Fodd bynnag, ar gyfer pob apwyntiad dilynol, nid oedd unrhyw arwydd bod y clinig wedi gwirio newidiadau i hanes meddygol cleifion na'r ffaith eu bod wedi rhoi cydsyniad parhaus. Roeddem o'r farn nad oedd cofnodion y cleifion yn ddigon manwl a bod angen eu gwella.

Gwelsom hefyd fod triniaeth laser wedi cael ei darparu i glaf dan 18 oed. Mae hyn yn torri Amodau Cofrestriad y clinig ag AGIC. Roedd cofnodion y claf hwn yn cael

eu cadw ar system amgen gan na fyddai prif system gofnodion y clinig yn caniatáu mewnbynnu gwybodaeth am gleifion dan 18 oed.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â'r materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau. Roedd hyn yn cynnwys risgiau, manteision, amledd a nifer disgwylledig y sesiynau, yn ogystal â'r canlyniadau disgwylledig. Dywedwyd wrthym fod canllawiau ar ôl-ofal yn cael eu darparu i'r holl gleifion. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y cofnodion yn dangos bod pob claf yn cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd ffotograffau yn cael eu tynnu ar ddechrau cwrs o driniaeth er mwyn i'r gweithredwr a'r claf weld y cynnydd o ran y canlyniadau.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod wedi cael digon o gyfarwyddiadau ôl-ofal a'u bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt haint/argyfwng, ac â phwy y dylent gysylltu. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth hefyd a chadarnhaodd pob un ond un eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio. Cawsom sicrwydd fod hyn yn wir yn seiliedig ar y cofnodion a welsom. Dywedwyd wrthym fod hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu bob amser fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio a'u henwau'n cael eu newid yn ôl y gofyn.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Ar ôl pob ymweliad, caiff holiadur electronig ei anfon at bob claf a gaiff ei gofnodi ar system technoleg gwybodaeth y clinig. Roedd adborth gan gleifion hefyd yn cael ei gasglu drwy adolygiadau Google ac ar gyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd wrthym y byddai'r clinig yn mynd i'r afael ag adborth a roddir ar lafar wyneb yn

wyneb ar unwaith, ond nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi. Gwelsom nad oedd adborth yn cael ei ddadansoddi ac nad oedd unrhyw systemau ar waith er mwyn rhoi gwybod i gleifion am ganlyniadau'r adborth, fel bwrdd arddangos 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- rhoi system ar waith er mwyn cofnodi adborth a roddir ar lafar
- dadansoddi canlyniadau adborth gan gleifion er mwyn helpu i asesu ansawdd y gwasanaeth
- rhoi dull ar waith ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am ganlyniadau'r adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl yr olwg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ystafell aros ynghyd ag ystafell drin ar wahân. Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn gyfforddus ac roedd yn ymddangos ei bod yn cynnwys digon o gyfarpar.

Gwelsom fod y gwaith gwefru trydanol ar y safle wedi cael ei arolygu yn ystod y pum mlynedd diwethaf a bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau yn ddiweddar a bod y sticeri yn weladwy ar yr offer perthnasol. Dywedwyd wrthym nad oedd nwy yn cael ei ddarparu i'r clinig.

Gwelsom fod asesiad risg cynhwysfawr wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi lechyd a Diogelwch ar waith ar gyfer y clinig er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwnaethom adolygu trefniadau diogelwch tân y clinig. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir a bod arwyddion a goleuadau argyfwng wedi'u gosod. Gwelsom fod gwiriadau o'r system larwm tân yn cael eu cofnodi'n wythnosol a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n flynyddol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau'n llawn. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith.

Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael, a bod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r rheolwr cofrestredig ar unwaith.

Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Cafodd copi o dystysgrifau'r hyfforddiant a gwblhawyd ei ddarparu yn fuan ar ôl yr arolygiad. Ceir

rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn ymddangos yn lân ac yn daclus a bod hylif golchi dwylo a thywelion papur ar gael i'r staff a'r cleifion i'w defnyddio. Roedd y gwely triniaeth mewn cyflwr da ac roedd yn bosibl glanhau'r arwynebeddau yn yr ystafell drin. Eglurodd y rheolwr cofrestredig brosesau glanhau clinigol addas ar ei gyfer ei hun, y cyfarpar a'r ystafell drin. Fodd bynnag, ni fu modd i ni ddod o hyd i bolisi atal a rheoli heintiau y clinig yn ystod yr arolygiad. Darparwyd copi i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod contract addas ar waith i gasglu a chael gwared ar wastraff clinigol. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel yn y safle cyn iddo gael ei gasglu.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Nid oedd plant yn cael bod yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod hyn wrth drefnu apwyntiadau.

Roedd polisi diogelu oedolion cyfredol ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn pe byddai unrhyw bryder diogelu yn codi. Roedd hyn yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael am y broses o asesu galluedd cleifion i gydsynio. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig. Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC i ddangos bod y wybodaeth hon wedi cael ei hychwanegu at y polisi yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Ni ddaethom o hyd i dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion agored i niwed yn ystod yr arolygiad hwn. Darparwyd copi o dystysgrif yr hyfforddiant ar ôl yr arolygiad. Fodd bynnag, nodwyd bod y dystysgrif wedi dod i ben yn ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant diogelu cyfredol mewn perthynas ag oedolion agored i niwed a rhoi tystiolaeth i AGIC i ddangos ei fod wedi ei gwblhau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yr un fath â'r un a gofrestrwyd ag AGIC a bod y gwasanaeth blyneddol a'r gwiriadau calibradu yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar laser a'r systemau diagnostig.

Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd protocolau triniaeth cyfredol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser yn ddiogel ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwr laser. Gwelsom fod y rhain mewn cyflwr da ac yn gyson â'r gofynion yn y rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos presenoldeb y peiriant laser ac roedd clo yn cael ei ddefnyddio i atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom drefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol ynghyd â hyfforddiant ar beiriannau penodol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nid oedd unrhyw systemau wedi'u dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r rheolwr cofrestredig geisio barn cleifion yn rheolaidd ffordd o lywio'r gofal, cynnal archwiliadau o gofnodion er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyson, ac asesu risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Roedd cofnodion digidol yn cael eu cadw ar system ddata'r clinig a oedd wedi'i diogelu'n addas â chyfrinair. Gwelsom fod y cyfnodau cadw data a'r trefniadau gwaredu yn briodol, ond nid yw'r clinig wedi bod yn gweithredu ddigon hir er mwyn rhoi'r mesurau hyn ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Anja Gosha yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriant laser awdurdodedig. Nid yw'r clinig yn cyflogi unrhyw weithwyr eraill.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC ac atodlen gysylltiedig yn cynnwys amodau'r cofrestriad yn cael eu harddangos yn y clinig fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau. Yn gyffredinol, gwelsom eu bod yn briodol a bod prosesau rheoli fersiynau addas ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol o hyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod rhai polisiau allweddol ar goll neu nad oeddent yn cynnwys canllawiau pwysig, fel y disgrifiwyd uchod. Bydd AGIC yn disgwyl gweld gwelliant yn y trefniadau llywodraethu a goruchwyllo yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y clinig, a oedd wedi'i chrynhof yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Roedd y weithdrefn hon yn nodi y byddai pob cwyn yn cael ei chydabod a'i chwblhau o fewn amserlen benodol. Dylai pob cwyn gael ei chofnodi mewn cofnod cwynion, ond gwelsom nad oedd yr un gŵyn wedi cael ei chofnodi. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gŵyn wedi dod i law hyd yma.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystysgrif gyfredol a chlir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw unig gyflogai'r clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Gallai cleifion wynebu risg.	Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Cwblhawyd yr hyfforddiant ar ddiwrnod yr arolygiad.
Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.	Gallai cleifion wynebu risg pe bai argyfwng neu os byddai'n llewygu.	Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.	Trefnwyd a chwblhawyd yr hyfforddiant ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Anja Gosha

Dyddiad yr arolygiad: 16 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd ysgrifenedig i AGIC na fydd y practis yn darparu unrhyw driniaethau laser pellach i gleifion dan 18 oed, heb yr awdurdodiad gofynnol gan AGIC.	Adran 24, Deddf Safonau Gofal 2000	Mae Anja Gosha yn datgan, drwy hyn, bod y polisi yn nodi na ddylid perfformio unrhyw driniaethau, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i driniaethau laser lleihau blew Lightsheer, ar unigolion dan 18 oed.	Anna Kowalczyk	Ar unwaith
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ar unwaith i AGIC o'r canlynol: Caiff yr holl gofnodion gofynnol yng nghofnodion	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23(1)(a)	Caiff cofnodion cleifion eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys dogfennaeth fanwl o bob sesiwn driniaeth.	Anna Kowalczyk	Ar unwaith

cleifion, gan gynnwys gwiriadau hanes meddygol parhaus a chydysniad cleifion, eu cwblhau'n llawn ac yn gywir, a'u llofnodi gan y claf a'r gweithredwr laser i ddangos eu bod yn gywir Sicrhau bod cofnodion cleifion ar gael bob amser i'w harolygu gan unrhyw berson awdurdodedig o'r awdurdod cofrestredig er mwyn arolygu'r sefydliad.	Rheoliad 23(3)(b)	Bydd cydsyniad parhaus ar gyfer unrhyw driniaeth newydd neu ddilynol yn cael ei gasglu, a bydd angen i'r cleient lofnodi a dyddio'r ffurflen ar ddechrau pob sesiwn. Caiff y ffurflenni cydsynio hyn eu cadw fel rhan o gofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a dogfennu cydsyniad ar sail gwybodaeth y cleifion ar gyfer pob triniaeth.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig baratoi polisiâu a gweithdrefnau a'u rhoi ar waith yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 9	Mae polisi rheoli heintiau wedi'i gwblhau ac rwyf wedi anfon copi ohono i AGIC. Mae asesiad risg iechyd a diogelwch wedi cael ei gynnal a bydd polisi priodol yn cael ei lunio yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw a'i anfon i AGIC wedi iddo gael ei gwblhau.	Anna Kowalczyk	02 Awst 2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Anna Kowalczyk

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Anja Gosha

Dyddiad yr arolygiad: 16 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion yn y clinig.	Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	- Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn adolygu'r Canllaw i Gleifion presennol ac yn ei ddiweddarau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoliadol. - Cynnwys y Strwythur Prisiau: Caiff strwythur prisiau clir a chynhwysfawr ei ychwanegu at y canllaw. - Y fformatau sydd ar gael: Bydd y Canllaw i Gleifion a gaiff ei ddiweddarau yn cael ei lunio yn y fformatau canlynol:	Y Rheolwr Cofrestredig fydd yn gyfrifol am gynnal a goruchwyllo'r diweddariadau hyn.	Caiff yr adolygiad ei gynnal o'r Canllaw i Gleifion a'r diweddariadau eu cwblhau erbyn 18 Medi

		• Llyfryn wedi ei argraffu a fydd ar gael yn y clinig. • Fersiwn PDF y gellir ei lawrlwytho a fydd ar gael ar wefan y clinig.		
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau y gellid diwallu anghenion cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rheoliad 9(1)(g)	1. Defnyddio Gwasanaethau Cyfieithu: Bydd y clinig yn cysylltu â swyddfa gyfieithu broffesiynol i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a dehongli fel y bo angen. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael i gleifion a fydd angen cyfathrebu yn Gymraeg neu unrhyw iaith arall heblaw Saesneg. 2. Cyfeiriadau yn y Canllaw i Gleifion: Roedd argaeledd gwasanaethau cyfieithu wedi'i nodi'n flaenorol yn y Canllaw i Gleifion yn ystod y diweddariad blaenorol. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hawl i ofyn am wasanaethau yn eu dewis iaith.	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am gydlynu'r gwasanaethau cyfieithu ac yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael ar gais.	Bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn unol ag anghenion cleifion sy'n dymuno cyfathrebu mewn iaith arall heblaw Saesneg. Nid oes angen nodi unrhyw ddyddiad cwblhau penodol gan y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n barhaus.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.	Rheoliad 45(2)	1. Defnyddio System Trefnu Apwyntiadau Ar-lein: Gall y cyfeiriadur cwsmeriaid presennol sydd wedi'i gynnwys yn system Trefnu Apwyntiadau Ar-lein y clinig hidlo'r holl ddata gofynnol mewn perthynas â thriniaethau laser yn ôl y peiriant. Mae hyn yn sicrhau y caiff cofrestr ganolog sy'n benodol ar gyfer y peiriant ei chynnal. 2. Rheoli Data yn Awtomatig: Mae'r system yn sicrhau y gellir casglu a hidlo data awtomatig yn seiliedig ar feini prawf sydd eisoes wedi'u nodi, sydd ar gael i unigolion awdurdodedig yn unig, gan gynnwys y Rheolwr Cofrestredig.	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am oruchwylio'r defnydd o'r system Trefnu Apwyntiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn.	Nid oes angen nodi unrhyw ddyddiad cwblhau penodol gan fod y system eisoes yn weithredol ac yn gallu cyflawni'r argymhelliad hwn.
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • rhoi system ar waith er mwyn cofnodi adborth a roddir ar lafar	Rheoliad 24(5)	1. Cofnodi Adborth a roddir ar lafar: Caiff yr holl adborth a roddir ar lafar mewn perthynas â thriniaethau a sylwadau cyffredinol am y clinig eu dogfennu yng nghofnodion unigol	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am roi'r system adborth hon ar waith a'i goruchwylio.	Caiff y system hon ei rhoi ar waith o 19 Awst ymlaen

• dadansoddi canlyniadau adborth gan gleifion er mwyn helpu i asesu ansawdd y gwasanaeth • rhoi dull ar waith ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am ganlyniadau'r adborth.	Rheoliad 19(1)(a) a (2)(b) Rheoliad 19(2)(c)	cleifion. Mae hyn yn sicrhau y caiff yr holl adborth eu casglu'n gywir a'u bod yn gysylltiedig â'r cleifion perthnasol. 2. Dadansoddiad o Adborth: Bydd y clinig yn dadansoddi'r adborth a gesglir yn rheolaidd er mwyn asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a nodi meysydd i'w gwella. 3. Cyfleu Canlyniadau: Bydd y cleifion yn cael gwybod am y canlyniadau ac unrhyw gamau a gymerwyd yn seiliedig ar eu hadborth. Caiff hyn ei wneud drwy bostiadau ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu priodol eraill.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant diogelu cyfredol mewn perthynas ag oedolion agored i niwed a rhoi tystiolaeth i AGIC i ddangos ei fod wedi ei gwblhau.	Rheoliad 20(2)(a)	1. Hyfforddiant Diogelu: Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cofrestru ar gyfer cwrs gloywi diogelu oedolion agored i niwed ac yn ei gwblhau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod y Rheolwr Cofrestredig yn	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am gwblhau'r hyfforddiant a chyflwyno'r dystiolaeth ofynnol.	Bydd yr hyfforddiant gloywi ar ddiogelu wedi'i gwblhau erbyn 18 Medi

		cydymffurfio â'r safonau ac arferion diogelu presennol o hyd. 2. Cyflwyno Tystiolaeth: Ar ôl i'r Rheolwr Cofrestredig gwblhau'r hyfforddiant, byddwn yn rhoi'r ddogfennaeth angenrheidiol i AGIC fel tystiolaeth ei bod wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.	Rheoliad 15(2)	1. Gwiriadau Awtomatig o'r Peiriant: Mae systemau hunanwirio awtomatig yn rhan o'r peiriant laser. Mae'r systemau hyn yn cynnal gwiriadau ar y diwrnod y mae'r clinig ar agor. Nid yw'r clinig ar agor bob diwrnod yn ystod yr wythnos. Os bydd y peiriant yn nodi unrhyw faterion, bydd yn rhybuddio'r gweithredwr ac ni fydd yn dod ymlaen, ac felly bydd yn rhwystro'r gweithredwr rhag cynnal unrhyw driniaethau y diwrnod hwnnw. 2. Cofnodi a Dogfennaeth: Er bod y peiriant yn olrhain ei statws	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn goruchwyllo'r broses, gan sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw faterion a gaiff eu nodi gan y peiriant yn briodol a bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn gywir.	Mae'r weithdrefn hon yn barhaus ac eisoes ar waith, a chaiff gwiriadau eu cynnal ar y dyddiau y mae'r clinig ar agor.

		gweithredol ei hun, caiff yr holl gofnodion o'r triniaethau a gynhaliwyd, gan gynnwys y dyddiad a'r cadarnhad bod y peiriant yn gweithio'n briodol, eu dogfennu yn ffeiliau'r cleifion dan sylw.		
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 19	1. Gwaith Monitro Parhaus: Fel unig ddarparwr y driniaeth electrolysis yng Nghymru, ac aelod o Gymdeithas Prydain, caiff ansawdd y gwasanaethau eu monitro'n barhaus. Mae'r ofynnol i'r Rheolwr Cofrestredig gwblhau pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus bob blwyddyn, sy'n gymwys ar gyfer triniaethau electrolysis a laser. Mae'r datblygiad proffesiynol parhaus hwn yn sicrhau bod gwasanaeth o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu o hyd. 2. Cydymffurfiaeth Reoleiddiol: Mae gofynion rheolaidd Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd yn addas ar gyfer rheoli	Mae'r Rheolwr Cofrestredig yn gyfrifol am gynnal ansawdd y gwasanaethau drwy ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a chydymffurfio â safonau'r diwydiant.	Mae'r broses hon eisoes ar waith a chaiff ei chynnal yn barhaus fel rhan o rwymedigaethau proffesiynol y Rheolwr Cofrestredig.

		ansawdd, gan sicrhau bod y Rheolwr Cofrestredig yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am safonau a gofynion rheoleiddiol y diwylliant.		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Anna Kowalczyk

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 19 Awst 2024